**CABINET - DYDD MAWRTH, 13 RHAGFYR 2022**

COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID SIAMBR CYNGOR, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR / O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT, DYDD MAWRTH, 13 RHAGFYR 2022, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JC Spanswick | N Farr | W R Goode | J Gebbie |
| HM Williams | JPD Blundell | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Steven Howell | Rheolwr Grwp, Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |

88. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant

89. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2022 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

90. POLISI LWFANSAU MAETHU WEDI'I DDIWEDDARU

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad, a oedd yn rhoi manylion i'r Cabinet am y Polisi Lwfansau Maethu wedi'i ddiweddaru.

Dywedodd fod Gwasanaethau Maethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Mawrth 2022 wedi cyflwyno eu Polisi Ariannol Maethu newydd i'r Cabinet i'w gymeradwyo, gan geisio cymeradwyaeth hefyd i ddirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant i weithredu'r polisi newydd.

Yn ystod cyfnod gweithredu'r polisi, nodwyd gwall gweinyddol fel yr adlewyrchir ym mharagraff 3.2 yn ymwneud â Lwfansau Maethu. Amlygwyd yr anghysondebau hyn yn felyn yn yr adran hon o'r adroddiad.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, er gwaethaf yr uchod, na chafodd unrhyw Ofalwr Maeth swm gwallus a diwygiwyd y Polisi i gynnwys yr wybodaeth ariannol gywir fel y'i nodir yn yr adroddiad.

Aeth ymlaen i gynghori bod y Polisi Ariannol Maethu wedi'i ddiweddaru ymhellach ym mis Gorffennaf 2022 i newid cyfraddau'r lwfans (yn dilyn cytundeb yn y Cabinet) i ddyfarnu cynnydd o 7% i'r lwfansau a dalir i holl Ofalwyr Maeth Pen-y-bont ar Ogwr (a fyddai'n cael eu hôl-ddyddio i fis Ebrill 2022 a'u cymhwyso i flwyddyn ariannol 2022/23)

a chyflwyno pythefnos o seibiant gyda thâl i holl Ofalwyr Maeth Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn olaf, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod y cynnydd o 7% i Lwfansau Gofal Maeth a gytunwyd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2022 bellach wedi'i dalu i Ofalwyr Maeth, gan ychwanegu bod y gwall gweinyddol yn y Polisi wedi'i ddiwygio yn ystod y cyfnod gweithredu.

Cadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd fod Maethu ym Mhen-y-bont ar Ogwr o safon uchel iawn ac roedd hi'n falch iawn o ddweud bod Gofalwyr Maeth 'Becky a Pete' wedi ennill Gwobr Rhagoriaeth yn ddiweddar yn gynharach eleni.

Am fod nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn cynyddu, ychwanegodd fod angen i ni gael mwy o ofalwyr maeth yn cyflwyno eu hunain i gefnogi'r bobl ifanc hyn.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y cafwyd diddordeb yn y ffurflen ymholiadau am ofal maeth, yn dilyn ymgyrch hysbysebu lwyddiannus yn ddiweddar.

PENDERFYNWYD:

(1) Bod y Cabinet yn nodi bod y gwall yn y Polisi Lwfansau Maethu fel y'i nodir ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad wedi'i ddiwygio ac wedi ei weithredu.

(2) Bod y Cabinet yn nodi ymhellach fod y Polisi wedi'i ddiwygio ymhellach ar gyfer 2022/23 i gynnwys y cynnydd o 7% i Lwfansau Gofal Maeth a gytunwyd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2022.

91. PENODI LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd er mwyn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i benodi llywodraethwr awdurdod lleol i'r corff llywodraethu ysgol a restrir ym mharagraff 4.1 (yr adroddiad).

Yn unol â 'Chanllawiau ar benodi llywodraethwyr awdurdodau addysg lleol' y Cyngor a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 14 Hydref 2008, dywedodd fod swyddogion wedi ystyried ceisiadau a ddaeth i law am y swydd wag bresennol i lywodraethwr awdurdod lleol ar gorff llywodraethu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.

Roedd cystadleuaeth am y swydd wag a manylwyd ar y ddau ymgeisydd yn y tabl yn yr adroddiad.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd, ar ôl rhoi sylw priodol i'r cryfderau a gyflwynwyd yn y ceisiadau gan y ddau ymgeisydd, fod y swyddogion wedi penderfynu argymell penodi Mr Ben Morgan.

Tynnodd yr Aelod Cabinet - Addysg sylw'r Aelodau a Swyddogion at y ffaith fod nifer sylweddol o swyddi Llywodraethwyr Ysgol yn wag o hyd fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad a bod angen eu llenwi, felly gofynnodd iddynt rannu'r ffaith hon gydag unrhyw un a allai fod â diddordeb mewn bod yn llywodraethwr yn unrhyw un o'r ysgolion lle'r oedd swyddi gwag o'r fath.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r penodiad a restrir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

## 92. YSGOL EGIN A GOFAL PLANT CYFRWNG CYMRAEG PORTHCAWL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad er mwyn:

- manylu ar ganlyniad y broses o arfarnu opsiynau ar gyfer darparu ysgol egin a gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gyfer ardal Porthcawl; a
- gofyn am gymeradwyaeth i ymgynghori ar gynnig i sefydlu ysgol egin a darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg i ardal Porthcawl ar dir ar safle Ysgol Gynradd Porthcawl.

Er mwyn rhoi cefndir, dywedodd fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi rhyddhau £30m ledled Cymru ym mis Mawrth 2018 ar gyfer prosiectau a oedd yn ymrwymo i gefnogi a thyfu'r defnydd o'r Gymraeg ym maes addysg. Byddai'r cyllid hwn yn cynorthwyo cyflawni ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Roedd archwiliad digonolrwydd gofal plant o leoliadau ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi nodi bylchau yn y ddarpariaeth hanfodol hon. Yn sgil y bylchau hyn, ynghyd â diffyg gofal plant cyfrwng Cymraeg, penderfynwyd canolbwyntio cynigion Pen-y-bont ar Ogwr ar ofal cofleidiol, gofal plant a sesiynol cyfrwng Cymraeg.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod Porthcawl wedi'i nodi ymhlith y pedwar lleoliad allweddol a fyddai'n elwa ar ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Ystyriwyd y byddai cyfleusterau o'r fath yn y lleoliadau strategol hyn yn helpu i gefnogi’r pontio o ofal plant i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. Gwnaethpwyd cais llwyddiannus am arian i Lywodraeth Cymru am ddarpariaeth o'r fath mewn rhai ardaloedd yn y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys Porthcawl.

Aeth ymlaen drwy gynghori bod gwerthusiad o opsiynau wedi canfod mai tir ar safle presennol Ysgol Gynradd Porthcawl oedd y lleoliad mwyaf addas ar gyfer ysgol egin a chyfleuster gofal plant. Er mwyn gwneud yn iawn am y tir a ddefnyddir ar gyfer y cyfleuster newydd, byddai cae pob tywydd yn cael ei ddarparu yn Ysgol Gynradd Porthcawl.

Mae'r ysgol egin arfaethedig yn 'ddosbarth cychwyn' gyda 30 o leoedd meithrin cyfwerth ag amser llawn, a 30 o leoedd derbyn, yn ôl y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

Y bwriad oedd gweithredu a rheoli egin-ddarpariaeth gan Ysgol y Ferch o'r Sgêr, ac y byddai disgyblion yn pontio i'r ysgol honno ym Mlwyddyn 1 i gwblhau eu haddysg gynradd; hynny yw, nes i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gael ei sefydlu ym Mhorthcawl yn rhan o fand o'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn y dyfodol, a gymeradwyodd y Cabinet mewn egwyddor yn flaenorol.

Bydd gan y cyfleuster gofal plant arfaethedig le ar gyfer 16 o leoedd gofal plant amser llawn (32 rhan- amser), ynghyd â 6 lle ar gyfer darpariaeth 0 i 2 sy'n cynnig gofal llawn o adeg geni o bosib i bedair oed. Roedd hyn yn cynnwys darpariaeth ar ôl ysgol a gwyliau, i gynnig gofal cofleidiol llawn trwy gyfrwng y Gymraeg. Y bwriad oedd y bydd darparwr preifat yn gweithredu'r cyfleuster hwn.

Nodwyd Porthcawl yn flaenorol fel lleoliad allweddol a fyddai'n elwa ar ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Ystyriwyd y byddai cyfleusterau o'r fath yn helpu i gefnogi’r pontio o ofal plant i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.

Ar hyn o bryd amcangyfrifwyd y bydd y ddarpariaeth newydd yn agor ym mis Ionawr 2025 os bydd y cynnig yn mynd rhagddo i'w gwblhau.

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Addysg ei bod yn braf iawn bod y cynnig hynod gyffrous hwn yn parhau i gamu ymlaen. Mae presenoldeb Cymraeg cryf ym Mhorthcawl, a bydd yr ysgol egin newydd hon yn parhau i atgyfnerthu pwysigrwydd y Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd.

Ychwanegodd y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar faint o bobl ifanc sy'n astudio addysg Gymraeg yn yr ardal ac, yn hollbwysig hefyd, yn helpu i gryfhau'r cysylltiadau pontio.

Holodd yr Aelod Cabinet - Adfywio a fyddai lleoedd  parcio ceir ar gael yn yr ysgol, ac atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd y byddai Asesiad Trafnidiaeth Llawn yn cael ei gynnal er mwyn gweithredu’r hyn yr ystyrir ei fod yn addas i leihau effaith y datblygiad.

Roedd yr Aelod Cabinet - Cymunedau yn falch o weld y byddai cae pob tywydd yn cael ei ddarparu yn yr ysgol gan obeithio y gallai'r gymuned ehangach ddefnyddio hwn y tu allan i amser ysgol yn ogystal ag ar gyfer disgyblion yno.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd, y byddai'r ysgol newydd yn targedu carbon sero net, yn unol ag agenda Carbon Niwtral y Cyngor.

Daeth yr Arweinydd i'r casgliad y byddai cyfleuster gofal plant yn yr ysgol hefyd, a oedd yn braf ei nodi.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn rhoi caniatâd i ymgynghori ar gynnig i sefydlu ysgol Egin a darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gyfer ardal Porthcawl ar dir ar safle Ysgol Gynradd Porthcawl.

93. DEDDF TAI (CYMRU) 2014

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Partneriaeth adroddiad i dynnu sylw at y newidiadau a wnaed i ddeddfwriaeth digartrefedd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r categori Angen Blaenoriaeth newydd, ac i geisio cymeradwyaeth y Cabinet mewn perthynas â chymhwyso'r 'prawf bwriadoldeb' i'r categori newydd hwnnw.

Yn unol â deddfwriaeth, dywedodd fod Deddf Tai (Cymru) 2014 (y Ddeddf), yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gynorthwyo'r rhai sydd dan fygythiad digartrefedd o fewn 56 diwrnod drwy gymryd pob cam rhesymol i atal/lleddfu digartrefedd. Ceir dyletswydd i atal digartrefedd o dan y Ddeddf ni waeth a oes gan yr ymgeisydd gysylltiad lleol â Phen-y-bont neu a yw'r ymgeisydd yn fwriadol ddigartref. Mae'r rhai sy'n gwneud cais digartrefedd, ond sydd heb gysylltiad lleol, yn cael cyngor a chymorth yn unig gan y Cyngor oni bai, er enghraifft, eu bod yn ffoi rhag trais/cam-drin domestig.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Partneriaeth, os na lwyddir i atal digartrefedd, fod dyletswydd i leddfu digartrefedd yr ymgeisydd ac i gymryd pob 'cam rhesymol' i wneud hynny.

Cyflwynodd y Ddeddf newidiadau hefyd o ran sut i gymhwyso'r 'prawf bwriadoldeb'. Cafodd Llywodraeth Cymru wared ar y prawf bwriadoldeb ar gyfer pob teulu â phlant hyd yn oed os canfyddir eu bod yn fwriadol ddigartref. Dywedodd fod cafeat i hyn, sef y byddai’n berthnasol dim ond os nad ydynt wedi'u canfod yn fwriadol ddigartref yn ystod y

5 mlynedd ddiwethaf. Amlinellwyd y diffiniad o fwriadol ddigartref ym mharagraff 3.5 o'r adroddiad.

Roedd paragraff 3.6 o'r adroddiad yn rhestru'r gwahanol gategorïau digartrefedd a ystyrir gan y Cyngor o dan feini prawf penodol a gwmpesir gan ddeddfwriaeth a/neu a gytunwyd gan y Cabinet mewn cyfarfod blaenorol.

Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Partneriaeth ymhellach fod y Ddeddf hefyd yn nodi 10 categori o aelwydydd oedd i'w hystyried ag angen blaenoriaeth. Ystyrir Angen Blaenoriaeth ar gyfer darparu llety dros dro a'r ddyletswydd ddigartrefedd derfynol i sicrhau llety parhaol.

Ar ddechrau pandemig Covid-19, cyflwynodd Llywodraeth Cymru (LlC) ymagwedd 'Cynnwys Pawb' at ddigartrefedd, a chyfarwyddodd awdurdodau lleol nad oedd neb i fod heb lety oherwydd y gorchymyn iechyd cyhoeddus sy'n gwneud pawb ag Angen Blaenoriaeth. Felly, ataliwyd y prawf bwriadoldeb i ymateb i'r sefyllfa frys ar y pryd gan arwain at fwy o niferoedd yn cael llety dros dro mewn gwestai, llety Airbnb ac ati.

Er na fydd rhai aelwydydd yn cael eu hystyried yn rhan o grŵp angen blaenoriaeth, byddant yn dal i gael yr un cymorth er na fyddant yn gymwys i gael llety dros dro.

Gwnaethpwyd y newidiadau presennol a weithredwyd gan LlC gyda'r bwriad o adolygu'r Ddeddf gyfan yn y dyfodol ac felly cynigir bod y Cyngor yn cymhwyso'r diffiniad bwriadoldeb i'r categori newydd o aelwydydd 'Digartref ar y Stryd' tan y bydd hyn yn digwydd.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet - Cenedlaethau'r Dyfodol, hyd yn oed pe bai unigolion yn ceisio bod yn fwriadol ddigartref, y byddai'r Cyngor gyda'i bartneriaid yn dal i ofalu amdanynt a cheisio eu perswadio i sicrhau rhyw fath o lety. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn hawdd, gan nad oedd rhai pobl ddigartref yn dymuno cael eu rhoi mewn llety. Cymhlethwyd y sefyllfa hon gan y ffaith bod gan rai o'r bobl hyn broblemau/anghenion iechyd cymhleth iawn.

Cadarnhaodd y Pennaeth Partneriaethau fod llety dros dro ar gael i'r rhai ar y strydoedd a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gan y rhai sy'n cysgu ar y stryd rywle i fynd, yn enwedig yn y tywydd rydym bellach yn ei gael. Cafwyd cymorth hefyd gan Dîm Ymyrraeth Cysgu Allan i'r perwyl hwn.

Dywedodd Aelod Cabinet - Cenedlaethau'r Dyfodol y gallai unrhyw un â phryderon ynghylch pobl sy'n cysgu ar y stryd roi gwybod am yr achosion hyn i StreetLink.

Cwblhaodd yr Arweinydd y ddadl ar yr eitem hon, drwy atgoffa'r rhai oedd yn bresennol nad oedd 98.7% o bobl mewn cymdeithas am wneud eu hunain yn fwriadol ddigartref.

| | |
|---|---|
| PENDERFYNWYD: | Bod y Cabinet yn cymeradwyo bod y Cyngor yn cymhwyso'r 'prawf bwriadoldeb' i'r categori newydd o aelwydydd 'Digartref ar y Stryd' ac yn cyhoeddi ei fwriad i wneud hynny yn unol â chyfeiriad Llywodraeth Cymru. |

94. PARHAU'R GWASANAETHAU CYMORTH TAI AR COITY ROAD

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid, adroddiad er mwyn ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet i addasu contract presennol yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor, er mwyn caniatáu parhau â gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai ar Coity Road.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Partneriaeth wrth y Cabinet, yn dilyn ymarfer caffael yn 2018, fod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPO) gontract ar waith gyda'r Wallich, ar gyfer cyflawni tri phrosiect cymorth cysylltiedig â thai ar Coety Road, Pen-y-bont ar Ogwr.

Dechreuodd y contract rhwng y Cyngor a’r Wallich ar 1 Ebrill 2018 a daeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Arferwyd opsiwn i estyn y contract am gyfnod hyd at 24 mis, heb ddewis pellach wedyn i estyn.

Ychwanegodd mai gwerth y contract blynyddol presennol oedd £358,170 a bod hwn wedi'i ariannu gan Grant Cymorth Tai CBSPO. Cyfanswm gwerth y contract oedd £1,790,850.

Ailadroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Partneriaeth, gyda'r contract presennol ar waith gyda'r Wallich i ddod i ben ar 31 Mawrth 2023, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contract CBSPO, fod angen ymarfer caffael i sicrhau y darperir gwasanaeth yn barhaus.

Ar 1 Rhagfyr 2022 daeth Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym a bydd adroddiad i'r Cabinet yn y dyfodol yn amlinellu goblygiadau ehangach y Ddeddf, ond mae'n amlwg y bydd goblygiadau i ddarparwyr llety dros dro a llety â chymorth. Eglurwyd rhai o'r rhain yn yr adroddiad.

Cynigiwyd gohirio’r broses gaffael a fydd yn ofynnol i sicrhau darpariaeth barhaus ac estyn y contract presennol sydd ar waith gyda'r Wallich, tra bod goblygiadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn cael eu deall yn llawn.

Y pryder a achoswyd drwy broses gaffael yn dechrau nawr, er mwyn sicrhau contract newydd erbyn 1 Ebrill 2023, oedd y gallai'r manylion a nodir mewn Manyleb Gwasanaeth ar hyn o bryd ddyddio’n gyflym iawn yn sgil newidiadau posib Llywodraeth. Yn ogystal, esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Partneriaeth y byddai mwy o ddiddordeb yn debygol mewn proses dendro gan ddarpar ddarparwyr pan fyddai goblygiadau'r Ddeddf yn cael eu deall yn llawn.

Cwblhaodd yr adroddiad drwy gynghori, os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig i addasu’r contract presennol, y bydd proses gaffael yn cael ei chynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contract CBSPO, er mwyn sicrhau contract newydd gyda dyddiad cychwyn o 1 Hydref 2023. Er mwyn caniatáu ymarfer caffael llawn gan gynnwys gweithredu contract newydd ac ystyried TUPE, byddai'r broses yn dechrau tua mis Mawrth 2023.

O ran goblygiadau ariannol yr adroddiad, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Partneriaeth fod cost addasu'r contract a fanylwyd ym mharagraff 4.9 yr adroddiad, o fewn 10% o werth y contract cyffredinol presennol. Byddai cost yr addasiad yn cael ei ariannu gan Grant Cymorth Tai CBSPO.

Pwysleisiodd Aelod Cabinet - Cenedlaethau'r Dyfodol mor bwysig oedd bod CBSPO yn deall sut y bydd y Ddeddf yn newid y systemau presennol sydd ar waith a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar y sector, gan fod pwysau digynsail gydag achosion o bobl ddigartref. Gobeithiai y byddai gennym broses gaffael mewn pryd, sy'n sicrhau y cawn y gwerth gorau am arian o ran cymorth a gwasanaeth cyfartal i'r un sy'n cefnogi trigolion ar hyn o bryd. Canmolodd hefyd waith y Wallich yn cefnogi'r digartref.

Gofynnodd yr Arweinydd a allai'r Cyngor ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd sydd hefyd yn gyfrifol am Dai, er mwyn annog Llywodraeth Cymru i wneud unrhyw newidiadau polisi o'r fath cyn gynted â phosibl, er mwyn i ni allu symud ymlaen i gomisiynu'r gwasanaeth yn y dyfodol agos.

Awgrymodd hefyd y dylid briffio'r tri Aelod Ward lleol newydd ar y mater hwn, er mwyn iddynt allu deall y gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n lleol, yn ogystal â bod yn ymwybodol o'r mecanweithiau cymorth sydd ar waith.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo addasiad ar ffurf 6 mis o estyniad o'r Contract sydd gan CBSPO ar waith gyda'r Wallich ar gyfer darparu Gwasanaethau Cymorth Cysylltiedig â Thai ar Coity Road.

95. DIWYGIO'R RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol adroddiad er mwyn:

- ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet i ddiwygio'r trothwy ariannol is ar gyfer cael tri dyfynbris ar gyfer gwaith, nwyddau a gwasanaethau rhwng £5,000 a £10,000 o fewn y Rheolau Gweithdrefn Contract i ddod i rym o 1 Ionawr 2023;

- argymell i'r Cyngor welliant i'r Cyfansoddiad i ymgorffori'r diwygiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Contract.

Trwy gyfrwng gwybodaeth gefndir, cadarnhaodd fod gofyn i'r Cyngor sicrhau bod y Rheolau Gweithdrefn Contract, sy'n rhan o Gyfansoddiad y Cyngor, yn adlewyrchu pwysau presennol y farchnad ac yn addas at ddiben.

Mae'r Rheolau Gweithdrefn Contract hefyd yn cynnwys y rheolau a'r canllawiau ar gyfer caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Eu bwriad yw sicrhau y cydymffurfir â chyfraith y DU, sicrhau bod arferion gorau'n cael eu dilyn a bod gwerth gorau'n cael ei gyflawni wrth ddefnyddio arian cyhoeddus.

Gan droi at y sefyllfa bresennol, dywedodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol fod yn rhaid i wasanaeth gael tri dyfynbris er mwyn caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith dros £5,000. Bu hyn yn anhydrin oherwydd nifer y dyfynbrisiau ar draws y Cyngor, gan arwain at oedi cyn darparu gwasanaethau. Roedd nifer o resymau dros hyn a gafodd eu hamlinellu yn yr adroddiad, ac ymhelaethodd arnynt.

Esboniodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol fod ymarfer meincnodi wedi dangos bod cynnydd i £10,000 ar gyfer cael tri dyfynbris yn unol â chynghorau cyfagos a chynigiwyd bod CBSPO yn dilyn yr un trywydd â hyn.

Cyfeiriodd y Cabinet at gopi o'r diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Gweithdrefn Contract i'r perwyl hwn, a ddangosir drwy newidiadau wedi'u tracio yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Canmolodd yr Aelod Cabinet - Adnoddau yr adroddiad a fyddai'n gwneud CBSPO yn unol ag awdurdodau cyfagos eraill o ran y cynnydd yn y trothwy ac sy'n ein galluogi i wynebu pwysau chwyddiant yn well.

Gofynnodd yr Arweinydd am sicrwydd y byddai trywydd archwilio o hyd mewn perthynas â phenderfyniadau caffael a fyddai'n cael eu gwneud, er gwaethaf y newid arfaethedig i'r Rheolau Gweithdrefn Contract.

Bu'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol yn tawelu meddyliau'r Aelodau fod proses i'w dilyn o hyd, h.y. cael tri

dyfynbris, a fydd yn cael ei threfnu gan y Tîm Cymorth Busnes a'i chymeradwyo gan Reolwyr.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, dywedodd y byddai adroddiad cynnydd ar y Rheolau Gweithdrefn Contract yn cael ei gyflwyno yn ôl i'r Cabinet ymhen 6 mis.

Cadarnhaodd hefyd yn olaf fod ambell awdurdod cyfagos a oedd yn cael tri dyfynbris ar gyfer gwaith yr amcangyfrifir ei fod yn £15,000 a hyd yn oed yn fwy na hynny.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

(i) Yn cymeradwyo'r newid i'r trothwy ariannol is o £5,000 i £10,000 ar gyfer cael tri dyfynbris o fewn y Rheolau Gweithdrefn Contract fel y dangosir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, i ddod i rym o 1 Ionawr 2023;

- Yn argymell i'r Cyngor welliant i'r Cyfansoddiad i ymgorffori'r diwygiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Contract.

96. PROSES YMGYNGHORI AR GYFER GORCHMYNION RHEOLEIDDIO TRAFFIG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau adroddiad er mwyn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu gweithdrefn ddiwygiedig wrth ymgynghori ag aelodau, unigolion a sefydliadau lleol ac wrth roi hysbysiad cyhoeddus yn ymwneud â Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (GRhT) parhaol, er mwyn symleiddio'r broses wrth symud ymlaen.

Esboniodd fod Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn nodi ymhlith ei phrif flaenoriaethau 'newid y terfyn cyflymder diofyn o 30mya i 20mya mewn ardaloedd adeiledig er mwyn lleihau anafiadau a marwolaethau sy'n gysylltiedig â thraffig a gwneud cerdded a beicio yn fwy diogel a deniadol'.

Cynigiwyd felly, trwy alluogi nifer llawer ehangach o gyfyngiadau 20mya, y byddai hyn yn sicrhau manteision diogelwch sylweddol ar y ffyrdd, yn enwedig mewn cymdogaethau difreintiedig. Yn y tymor hirach, roedd disgwyl i leihau'r farn am berygl ffyrdd arwain at fwy o gerdded a beicio, a fydd yn gwella iechyd y cyhoedd ac yn disodli rhai teithiau ceir byr ac yn cynorthwyo gostyngiadau pellach mewn gwrthdrawiadau ac anafiadau. Roedd mwy o gerdded a beicio hefyd yn debygol o arwain at fwy o gydlyniad cymdeithasol, sy'n dwyn manteision cymdeithasol ac iechyd pellach. Byddai cyflymder is hefyd yn arwain at ostwng sŵn traffig, tra bydd effeithiau ar ansawdd aer yn niwtral ar eu gwaethaf a bydd cynnydd amser teithio yn fach.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau ymhellach, fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, fod Tasglu 20mya wedi ei greu i weithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol i adnabod y ffyrdd hynny a fyddai'n eithriad i'r ddeddfwriaeth.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi nodi dros 100 o eithriadau, y bydd angen Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (GRhT) ar bob un ohonynt, naill ai ar gyfer cadw neu ddiwygio terfynau cyflymder. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r statws 20mya fesul dipyn ar gyfer rhai ffyrdd gan Lywodraeth Cymru oedd mis Medi'r flwyddyn nesaf.

Amlinellwyd ym mharagraffau 4 o'r adroddiad y broses ymgynghori yn gyffredinol i'w chynnal cyn y cam hysbysiad cyhoeddus statudol a chyn y gellir gweithredu GRhT parhaol. Yn ddibynnol ar faint a graddfa'r broses GRhT, gall hyn arwain at ddefnyddio dulliau ymgysylltu gwahanol, eglurodd. Roedd yr adran hon o'r adroddiad hefyd yn

rhestru'r ymgyngoreion statudol yr oedd gofyn i'r Cyngor ymgysylltu â nhw, a oedd yn cynnwys Aelodau lleol.

Roedd gweddill prif gorff yr adroddiad yn esbonio'r broses gyfreithiol ynghylch rhwymedigaethau statudol y Cyngor wrth gynnig gwneud GRhT, ynghyd â'r broses y mae'n rhaid ei dilyn os oes unrhyw wrthwynebiadau neu apeliadau i gynnig neu gynigion o'r fath.

Yna, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau oblygiadau ariannol yr adroddiad yn olaf, h.y. bod y costau ar gyfer Gorchmynion Rheoleiddio Traffig a noddir gan yr Awdurdod naill ai'n cael eu hariannu o fewn cyllidebau presennol, neu gan drydydd parti. Nid oedd goblygiadau ariannol felly'n deillio o gynigion yr adroddiad.

Canmolodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau yr adroddiad a chynghorodd y byddai Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn newydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i gynigion ynglŷn â'r cynllun 20mya fel bod aelodau'r cyhoedd yn fwy ymwybodol o'r bwriad hwn.

Ychwanegodd yr Arweinydd y byddai gwneud neu ddiwygio nifer sylweddol o GRhT yn rhoi cryn dipyn o faich gwaith cynyddol i Swyddogion yn y Cyfarwyddiaethau Cyfreithiol a Phriffyrdd.

Mewn ymateb i ymholiad pellach gan y Dirprwy Arweinydd, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau mai un o ymgyngoreion allweddol GRhT oedd yr Heddlu, a fyddai'n cael cyfle i gytuno neu anghytuno â chynigion a fyddai'n cael eu dilyn gan awdurdodau lleol ledled Cymru (gan gynnwys CBSPO), gan fod hwn yn Gynllun Cenedlaethol a fyddai'n cael ei gymhwyso yn amodol ar eithriadau (h.y. ffyrdd na fydd yn destun cyfyngiad cyflymder o 20mya). Ychwanegodd mai'r Heddlu oedd, wrth reswm, yn gyfrifol am orfodi unrhyw doriad ynglŷn â chyfyngiadau cyflymder ar y rhwydwaith priffyrdd gan yrwyr cerbydau.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:

(1) Yn cymeradwyo bod y Weithdrefn Ymgynghori ar gyfer Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 2014, fel y nodir yn Adroddiad y Cabinet sydd ynghlwm ag Atodiad 1, yn cael ei diwygio fel yr amlinellir ym mharagraff 4.5 (yn amodol ar ddileu'r geiriau mewn cromfachau yn y pwynt is-fwled cyntaf ym mharagraff 4.5.1 o'r adroddiad) a bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau i wneud y gwelliannau angenrheidiol.

(2) Yn cymeradwyo ymhellach fod holl gynigion rheoli traffig a diogelwch ffyrdd y dyfodol yn dilyn y weithdrefn ddiwygiedig fel y'i nodir yn yr adroddiad.

97. <u>CYNLLUN RHEOLI CYRCHFAN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR 2022-2027</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau adroddiad, er mwyn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun Rheoli Cyrchfan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, 2022-2027 a chymeradwyo gweithredu'r camau a ddeilliodd o hynny.

Eglurodd fod Cynllun Rheoli Cyrchfan (CRhC) yn ddatganiad o'r bwriad i reoli cyrchfan er budd twristiaeth, dros gyfnod penodedig, sy'n nodi'r ffyrdd y gall gwahanol randdeiliaid gydweithio i gael effaith gadarnhaol. Mae'r CRhC newydd yn ddatganiad o fwriad a rennir i reoli Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel cyrchfan lwyddiannus i ymwelwyr rhwng 2022 a 2027.

I’r perwyl hwn, bydd CBSPO yn gweithio mewn partneriaeth â Croeso Cymru, endidau rhanbarthol megis Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, awdurdodau cyfagos, a rhanddeiliaid allweddol megis cynghorau tref a chymuned, darparwyr llety, atyniadau twristaidd, darparwyr gweithgareddau a busnesau lleol eraill sy'n cefnogi'r economi ymwelwyr.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau fod newid sylweddol wedi digwydd, ers cynhyrchu’r CRhC diwethaf, ar lefelau byd-eang, cenedlaethol a lleol, gyda phandemig Covid-19, ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a chynnydd mewn costau byw. Cafodd y rhain oll oblygiadau i'r diwydiannau twristiaeth a lletygarwch. Er bod llawer wedi newid, mae llawer o botensial i'r dyfodol hefyd.

Mae CBSPO wedi nodi twristiaeth fel rhan o'i economi sylfaenol gydag ymateb adfer sy'n cynnwys ffrydiau ariannu ychwanegol, prosiectau amwynderau cyhoeddus, uwchraddio seilwaith a chymorth i'r sector llety.

Roedd Cynllun Rheoli Cyrchfan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, 2022-2027, ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Os caiff ei fabwysiadu gan y Cabinet, y bwriad oedd gosod y fframwaith ar gyfer cefnogi'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth dwristiaeth hyd at 2027.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod camau a geir yn y Cynllun Gweithredu Cyrchfan wedi'u datblygu i gynnig y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau, canolbwyntio ar gyfleoedd strategol allweddol ar gyfer datblygu, gwneud y gorau o gyfleoedd ariannu allanol a, lle bo modd, darparu mewn partneriaeth. Byddai'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau a restrir ym mharagraff 4.5 o'r adroddiad.

Nodau'r Cynllun Rheoli Cyrchfan oedd:

- creu twf economaidd sy'n dwyn buddion i bobl a lleoedd;
- hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol;
- darparu cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol ar gyfer trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd;
- ymgorffori buddion iechyd (er enghraifft trwy hyrwyddo teithio llesol, gweithgaredd corfforol neu les meddyliol sy'n gysylltiedig â chael profiad o’r amgylchedd naturiol.)

Bydd cyflawni camau gweithredu mewn perthynas â thwristiaeth yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o ardaloedd a chyfleoedd sy'n cyflwyno'r effaith fwyaf posibl i’r Fwrdeistref Sirol a defnyddio ystod o gyfleoedd ariannu allanol pan fyddant ar gael, a byddai hyn yn golygu gweithio mewn partneriaeth. Byddai hyn, yn ei dro, yn cynorthwyo i gyflawni a gweithredu'r camau a amlinellir yn Atodiad 1 a hyrwyddo BSPO yn llwyddiannus fel cyrchfan gydlynol.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet - Adfywio bwysigrwydd cael Cynllun fel hwn ar waith, er mwyn llywio, hybu ac annog twristiaeth o fewn y Fwrdeistref Sirol.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau fod gan BSPO amgylchedd naturiol gwych, yn enwedig o fewn ardaloedd y tri phrif gwm, Ogwr, Garw a Maesteg. Teimlai y byddai'n fuddiol pe bai dangosyddion perfformiad yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol sy’n dod i’r amlwg, er mwyn sicrhau bod y targedau yr oeddem yn eu gosod ein hunain yn cael eu bodloni o ran twristiaeth.

Daeth yr Arweinydd i ben drwy ddweud bod twristiaeth cyn y pandemig yn dod â thros draean biliwn o wariant i economi BSPO ac wedi diogelu dros 4,000 o swyddi, ond yn amlwg cafodd hyn ei daro'n galed wedyn gan y cyfnod clo. Roedd yn falch o ychwanegu bod y diwydiant bellach yn adfywio. Cafodd ei annog yn arbennig gan nifer cynyddol yr

ymwelwyr â Pharc Bryngarw lle cafodd y Cyngor arian er mwyn gwella'r cyfleuster hwn. Yn yr un modd, roedd Rest Bay hefyd yn uchel ar restr ymwelwyr, lle cawsom arian Ewropeaidd yn y gorffennol ar gyfer gwelliannau fel y cyfleuster chwaraeon dŵr a byddai mwy o arian yn cael ei ymrwymo i Borthcawl fel rhan o'i Raglen Adfywio barhaus, ychwanegodd.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

(1) Yn cymeradwyo Cynllun Rheoli Cyrchfan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, 2022-2027;

(2) Yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau i weithredu'r Cynllun Gweithredu Cyrchfan a gynhwysir o fewn Atodiad 1 yr adroddiad.

98. PEN-Y-BONT AR OGWR 2030 - STRATEGAETH CARBON SERO NET

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau adroddiad i ofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu Strategaeth Carbon Sero Net Pen-y-bont ar Ogwr 2030 yn ffurfiol. Mae'r adroddiad yn argymell y dylid mabwysiadu'r strategaeth a gweithredu'r cynlluniau gweithredu y manylir arnynt ynddi, fel y gall Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr ennill statws sero net erbyn 2030.

O ran cefndir, dywedodd yr adroddiad fod Panel Rhynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (IPCC) wedi llunio adroddiad ar gyflwr cynhesu byd-eang ym mis Hydref 2018. Nododd yr adroddiad y bydd cynhesu tymheredd byd-eang parhaus yn cynyddu tebygolrwydd llifogydd, sychder a gwres eithafol yn sylweddol, ac felly eu heffaith ganlyniadol.

Yna, datganodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Hinsawdd ym mis Ebrill 2019 ac yn dilyn hyn, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ymrwymo i sicrhau sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.

Bu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yn atgoffa'r Cabinet fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPO) ym mis Mehefin 2020 wedi cymeradwyo adroddiad a oedd yn gosod y rhannau hollbwysig y mae'n rhaid i CBSPO eu chwarae drwy reoli ei adnoddau a'i asedau ei hun, ynghyd â'r ffordd y mae'n gweithio gyda thrigolion, sefydliadau a busnesau lleol ac yn eu cefnogi i ymateb i'r heriau a nodwyd yn adroddiad IPCC.

Uchelgais a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yw targed i Awdurdodau Lleol Cymru fod yn garbon sero-net erbyn 2030. Mewn ymateb, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) gydag Arweinwyr llywodraeth leol wedi sefydlu Panel Strategaeth Datgarboneiddio, gyda chefnogaeth y 22 awdurdod lleol i gyd, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Phrifysgol Caerdydd.

Ar ôl penodi'r Ymddiriedolaeth Garbon i weithio gyda CBSPO ar ddatblygu Strategaeth Carbon Sero Net Pen-y-bont ar Ogwr 2030, roedd Swyddogion wedi cynnal nifer o weithgareddau rhagweithiol a rhestrwyd y rhain ym mharagraff 3.8 o'r adroddiad.

Atodwyd fersiwn derfynol Strategaeth Carbon Sero Net Pen-y-bont ar Ogwr 2030 yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Datblygwyd hyn yn dilyn adolygiad manwl o ddata yn unol â Chanllaw Adrodd Carbon Sero Net Sector Cyhoeddus Cymru a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Yn bwysig, nid y Strategaeth fydd yr unig sbardun ar gyfer sero-net, gan y byddai'n rhan o Gynllun Corfforaethol y Cyngor, tra bydd angen i

bolisïau, strategaethau a chynlluniau parhaus i gyd adlewyrchu'r ymrwymiad i sero net. Bydd hyn yn sicrhau y caiff ei gofleidio'n llawn ar draws y sefydliad.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau fod ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Carbon Sero Net 2030 yn cael ei gynnal dros gyfnod o ddeuddeg wythnos rhwng 8 Mehefin a 30 Awst 2022. Cafodd yr ymgynghoriad 360 o ymatebion i'r arolwg ar-lein, a chwblhawyd 35 achos arall o ymgysylltu wyneb yn wyneb. Cafodd yr adroddiad ymgynghori ei gynnwys yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

Roedd dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd yn dangos bod mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi Strategaeth Carbon Sero Net ddrafft Pen-y-bont ar Ogwr 2030 a'r blaenoriaethau ynddi.

Yr Arweinwyr Carbon ar gyfer bwrw ati i gyflwyno Strategaeth Carbon Sero Net Pen-y-bont ar Ogwr 2030 oedd:

- o Rheoli Carbon – Rheolwr Grŵp - Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd
- o Gwastraff – Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol
- o Trafnidiaeth – Rheolwr Grŵp - Priffyrdd a Mannau Gwyrdd
- o Adeiladau – Rheolwr Grŵp - Landlord Corfforaethol
- o Defnydd Tir – Rheolwr Ymateb Newid Hinsawdd
- o Caffael – Rheolwr Caffael Corfforaethol

Cwblhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yr adroddiad drwy amlygu rhai o oblygiadau ariannol y Strategaeth yr ymhelaethwyd arnynt ym mharagraff 8 yr adroddiad, a oedd yn arwyddocaol.

Dywedodd yr Arweinydd mai hon oedd un o'r Strategaethau pwysicaf yr oedd gofyn i'r Cyngor ei gweithredu, er mwyn cyflawni o ran yr Argyfwng Hinsawdd.

Nododd yr Aelod Cabinet - Cymunedau fod paragraff 4.5 o'r adroddiad yn rhestru'r Swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yr oedd gofyn iddynt arwain ar wahanol agweddau'r Strategaeth; fodd bynnag, ychwanegodd y dylai hefyd fod Swyddog Arweiniol ar gyfer yr Agenda Newid Hinsawdd ym mhob un o'r Cyfarwyddiaethau eraill, gan fod angen cael dull Cyngor cyfan o gyflawni hyn fel Blaenoriaeth Gorfforaethol 'Un Cyngor'. Ychwanegodd fod ganddo rai pryderon am gost y prosiect a'i fod yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu cynorthwyo awdurdodau lleol yn ariannol, er mwyn cyflawni'r Strategaeth yn llwyddiannus yn ei chyfanrwydd.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet - Addysg a ellid ystyried cael paragraff safonol yn nhempled yr adroddiad ar gyfer holl adroddiadau'r Pwyllgor, gan amlinellu sut yr oedd adroddiadau o'r fath yn effeithio (os o gwbl) ar yr Agenda Lleihau Carbon.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y gellid edrych ar hyn ar y cyd ag adolygiad templed adroddiad y Pwyllgor a oedd ar y gweill ar hyn o bryd. Y gobaith oedd cyflwyno adroddiad i'r Cyngor ym mis Chwefror, yn amlinellu rhai addasiadau i'r templed adroddiad.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd a allai'r adolygiad hefyd gynnwys cael Crynodeb Gweithredol fel paragraff mewn adroddiadau hirach a mwy cymhleth a manwl, ac atebodd y Swyddog Monitro y gellid edrych ar hyn hefyd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Adnoddau yn olaf ei fod yn falch o gadarnhau y cadarnhawyd, yn setliad Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd heddiw, fod bwriad i gyfran

sylweddol o wariant cyfalaf gael ei hymrwymo i Leihau Carbon ar draws awdurdodau lleol Cymru.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn mabwysiadu'n ffurfiol Strategaeth Carbon Sero Net Pen-y-bont ar Ogwr 2030

99. EITEMAU BRYS

Dim.

100. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, fod y cyhoedd yn cael ei eithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau canlynol o fusnes gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

Yn dilyn cymhwyso'r prawf buddiant cyhoeddus, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, ystyried yr eitem ganlynol yn breifat, gan eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod, gan yr ystyriwyd bod buddiant y cyhoedd o cynnal yr esgusodiad, yn yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â'r eitem, yn drech na buddiant y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.

101. HEN YSTÂD DDIWYDIANNOL EWENNY ROAD: AILDDATBLYGIAD ARFAETHEDIG

102. ADFYWIO GLANNAU PORTHCAWL

Daeth y cyfarfod i ben am 17:00